

Papur sefyllfa / Position paper

Dyddiad/Date

Hydref 2018 // October 2018

Pwnc/Subject

Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentynod (ACEau): safbwynt hawliau plant // Adverse Childhood Experiences (ACEs): a children's rights perspective

*** Saesneg Isod // English below***

Mae Llywodraeth Cymru, ynghyd â nifer o'n gwasanaethau cyhoeddus yma yng Nghymru ac yng ngweddill y Deyrnas Unedig, wedi dod yn gynyddol ymwybodol o effaith Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentynod (a elwir yn ACEau) ar unigolion trwy gydol eu hoes.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cyhoeddi [ymchwil](#) sy'n dangos y modd y mae cael nifer o brofiadau negyddol yn ystod plentynod, er enghraifft camdriniaeth neu esgeulustod, neu feddu ar rieni a oedd yn camddefnyddio cyffuriau ac alcohol, yn effeithio ar iechyd hirdymor pobl, yn ogystal ag effaith uniongyrchol y profiadau hyn ar y plentyn, wrth gwrs. Mae hyn yn efelychu ymchwil ryngwladol a wnaed yn flaenorol, ond mae bellach yn darparu sail dystiolaeth ar gyfer poblogaeth Cymru.

O ganlyniad, mae'r Llywodraeth wedi ariannu prosiectau a fydd yn helpu gweithwyr proffesiynol i fod yn 'ymwybodol o ACEau' wrth weithio gyda phlant ac oedolion, a hefyd i geisio atal ACEau a mynd i'r afael â nhw.

Mae rhai wedi mynegi pryderon nad yw hyn yn ddim ond ffordd o dynnu sylw oddi ar y dasg graidd, sef darparu gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd uchel, yn enwedig gan nad yw'r syniad bod trawma cynnar yn effeithio ar bobl yn yr hirdymor yn newyddion i'r rheiny sy'n gweithio gyda phobl mewn trafferthion, er enghraifft gweithwyr cymdeithasol, therapyddion, swyddogion digartrefedd a swyddogion prawf. Mae eraill yn ei ystyried yn hanfodol wrth sicrhau bod ein gwasanaethau yn cael eu llunio yn unol ag anghenion ein poblogaeth, a hynny yn y byrdymor a'r hirdymor.

Yn y papur hwn, rwy'n amlinellu rhai problemau posibl, yn ogystal â'r hyn sy'n botensial cadarnhaol, yn fy marn i, o ran y sgwrs gyffredinol am 'ACEau' sy'n cael ei chynnal yng Nghymru ar hyn o bryd. Rwyf wedyn yn mynd ati i ddadlau ynghylch y modd y gall ein gwybodaeth gynyddol am effaith profiadau negyddol ar blant, mewn gwirionedd, gryfhau ein penderfynoldeb i sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle cyfartal i wireddu ei botensial.

Problemau

Dyma rai problemau posibl wrth bennu 'ACEau' yn sbardun ar gyfer llunio polisi cyhoeddus ar gyfer plant:

1. Mae yna risg y bydd holl broblemau cymdeithasol plant a'u teuluoedd yn cael eu hystyried yn ganlyniad i'w hymddygiad unigol, er enghraifft trais, caethiwed, trosedd a gwahanu. Gallai hyn arwain at anwybyddu



**Comisiynydd
Plant Cymru**
Children's
Commissioner
for Wales

ein hymdrechion angenrheidiol i newid yr amodau cymdeithasol sy'n gallu gwneud llawer o'r ymddygiadau hynny yn fwy tebygol, yn enwedig tlodi, tai gwael, gwahaniaethu, a diffyg cyfleoedd ar gyfer y dyfodol. Mae'r amgylchedd hwnnw yn rhoi straen sylweddol ar berthnasoedd teuluol. Yn fy marn i, mae'n rhaid i anghydraddoldebau cymdeithasol fod ar frig yr agenda ar gyfer unrhyw lywodraeth flaengar.

2. Gallai labelu plant yn nhermau 'tri ACE', 'pum ACE', ac ati, beri problemau gwirioneddol gan fod hyn yn ffordd gymharol fras o fesur trawma. Gallai un golled ysgubol neu achos difrifol o gamdriniaeth effeithio'n negyddol ar rai unigolion am oes, tra byddai'n effeithio llai ar weithredoedd pobl eraill o ddydd i ddydd. Efallai na fydd gan rai plant unrhyw ACEau a nodir, ond bydd dal i fod arnynt angen cymorth.
3. Am yr un rheswm, byddwn yn gochel rhag atal mynediad at wasanaethau ar sail nifer yr 'ACEau'. Rwy'n gobeeithio'n fawr na fyddwn yn dilyn y trywydd hwnnw yng Nghymru.
4. Mae yna bynciau llosg ynghylch preifatrwydd sydd angen sylw. Mae'n rhaid sicrhau fod y broses o sut mae pobl yn gofyn am brofiadau plant a phobl ifanc a sut mae'r wybodaeth hynny'n cael ei storio a'i rannu mewn lleoliadau megis ysgolion a gwasanaethau ieuencid yn gorfod cydymffurfio gyda chanllawiau arfer da, rheoliadau rhyddid wybodaeth a hawliau plant i breifatrwydd.

Potensial

Mae yna dair mantais fawr o fod yn genedl sy'n 'ymwybodol o ACE', yn fy marn i, sef:

1. Gallai arwain at well dealltwriaeth o'r plant hynny sydd â'r ymddygiad mwyaf heriol, a hefyd at awydd i'w helpu. Er enghraifft, byddai ysgol sy'n 'ymwybodol o ACEau' yn annhebygol o weithredu'r rheolau llym, 'dim esgusodion' hynny sy'n arwain at gyfran uwch o blant o gefndir amddifadus, neu blant sydd wedi profi trawma, yn cael cam neu hyd yn oed yn cael eu gwahardd o'r ysgol.
2. Mae yna botensial go iawn i ailstrwythuro ein gwasanaethau cyhoeddus yn unol ag anghenion cydnabyddedig y boblogaeth. Mae plant a phobl ifanc sydd wedi profi nifer o Brofiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod, ac sydd, o bosibl, yn dal i fyw mewn amgylchiadau anodd, yn aml yn cael trafferth cael gafael ar y gwasanaethau a allai eu helpu fwyaf, er enghraifft Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed. Efallai nad oes yna oedolion o'u cwmpas a allai fynnu bod apwyntiad yn cael ei drefnu, neu fynd â nhw i glinig ffurfiol. Gall y gwasanaethau cyhoeddus ad-drefnu'r gwasanaethau er mwyn sicrhau eu bod yn hygyrch i'w poblogaeth leol ac yn diwallu ei hanghenion.
3. Mae ymchwil yn dangos mai'r amddiffyniad gorau rhag effeithiau negyddol byw â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod yw cael o leiaf un berthynas gadarnhaol a chyson ag oedolyn. Dylai hyn gryfhau ein penderfyniad i helpu i gefnogi perthnasoedd cryf ag aelodau o'r teulu estynedig a chymunedau, ac i gefnogi eraill a all gyflawni hyn, er enghraifft gofaluwr maeth a gweithwyr ieuencid.

Hawliau dynol plant ac ACEau

Mae fy swyddfa wedi cyhoeddi dogfen o'r enw [Y Ffordd Gywir: Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant yng Nghymru](#), sy'n helpu cyrff cyhoeddus – o Lywodraeth Cymru i ysgolion unigol – i ystyried y ffordd y maent yn sicrhau bod plant yng Nghymru yn gallu arddel yn llawn eu 42 o hawliau dynol o dan



[Confensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn](#) (CCUHP). Mae'n ddull ymarferol iawn, sydd eisoes wedi cynorthwyo sefydliadau a chyrrff cyhoeddus i ystyried yr hyn y maent yn ei wneud yn dda a'r pethau eraill y gallent eu gwneud. Yng Nghymru, wrth gwrs, rydym wedi gwneud ymrwymiad cenedlaethol i gynnwys hawliau plant trwy Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Rwy'n awyddus i sicrhau bod hwn yn fwy nag ymarfer ticio blwch yn unig, ond ei fod yn rhywbeth sy'n trawsnewid perthnasoedd plant â'r gwasanaethau cyhoeddus. Mantais fawr hawliau plant yw eu bod yn berthnasol i bawb, yn wleidyddol niwtral (ni fyddant yn diflannu os bydd y Llywodraeth yn newid), ac yn darparu iaith a rennir rhwng grwpiau proffesiynol gwahanol a phlant.

Mae'n ddiddorol nodi fod y model ACE wedi dod yn wreiddiol o'r Unol Daleithiau America – yr unig wlad yn y byd sydd heb fabwysiadu CCUHP. Yng Nghymru, gyda'n ymrwymiad i CCUHP, yn rhoi'r cyfle i ni edrych ar ACE drwy lens fframwaith hawliau plant positif, fydd yn ein galluogi ni i ddeall profiadau plant. Mae ymwreiddio hawliau i fewn i ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus yn ein galluogi ni i sicrhau ein bod ni fel cymdeithas yn cymryd camau rhagweithiol i sicrhau fod gan blant a phobl ifanc yr hyn sydd ei angen arnynt i fod yn hapus, iach a diogel.

Mae yna bum egwyddor syml i ddull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau plant, sef: ymgorffori hawliau plant, peidio â gwahaniaethu a chydraddoldeb, grymuso, cyfranogi, ac atebolrwydd. Yn fy marn i, gallant ddarparu set ddefnyddiol o egwyddorion ar gyfer sicrhau bod ein hymwybyddiaeth gynyddol o ACEau yng Nghymru yn cyd-fynd â'n ymrwymiad i sicrhau hawliau dynol pob plentyn.

1. Ymgorffori. Mae hyn yn golygu bod hawliau plant yn cael eu cynnwys mewn polisiâu, bod staff yn cael hyfforddiant ar hawliau plant, a bod yr hawliau'n cael eu harddangos mewn modd gweledol mewn ystafelloedd aros ac ar waliau ystafelloedd dosbarth. Mae hyn yn symud y sgwrs yn ei blaen o ystyried bod ACEau yn ymwneud â *diffyg* ymhlith plant, neu, yn waeth na hynny, yn rhywbeth sydd, o bosibl, o'i le arnynt, at neges fwy cadarnhaol ynghylch hawl plant i gael gwasanaethau a fydd yn eu helpu i wireddu eu potensial.

2. Peidio â gwahaniaethu a chydraddoldeb. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ni feddwl am y modd y gallai ein harferion a'n polisiâu fod yn eithrio'r rheiny sydd wedi profi trawma/ACEau, neu'n eu rhoi dan anfantais. Gallai hyn gynnwys tynnu plant oddi ar restr aros ar gyfer gofal iechyd am 'nad oeddent yn bresennol' (na chawsant eu cludo yno), neu eu cosbi am fynegi eu trawma trwy ymddygiad aflonyddgar yn yr ysgol. Dylem hefyd fod yn ystyried y modd y mae tlodi yn achosi ac yn dwysáu ACEau, ac yn meddwl am y modd y bydd codi rhagor o deuluoedd allan o dlodi (ynghyd â'r agweddau perthnasol megis tai gwael) yn helpu'r plant sydd wedi profi ACEau, a hefyd yn atal yr ACEau hynny.

Bydd angen ystyried yn ofalus unrhyw symudiad tuag at sgrinio poblogaethau o blant i ganfod ACEau. Gall hyn fod yn ddefnyddiol ar gyfer ysgol neu unrhyw wasanaeth cyhoeddus arall, er mwyn cynllunio'r ffordd y maent yn ymateb i lefelau ACEau, ond gall hefyd godi materion pwysig mewn perthynas â labelu posibl, stigma, preifatrwydd a chaniatâd i gasglu a defnyddio data.

3. Grymuso. Bydd llawer o blant sydd wedi profi ACEau yn teimlo'n arbennig o ddi-rym. Mae angen i blant profi eu hawliau (e.e. rhywun yn gofalu amdanynt, yn gwrandao arnynt ac yn eu cadw'n ddiogel) er mwyn gallu eu harddel. Rwyf wedi clywed gan athrawon yng Nghymru am yr effaith rymus y mae clywed bod ganddynt hawl i fod yn ddiogel yn ei chael ar blant – gall y neges honno fod yn agoriad llygad i rai plant. Felly ystyr grymuso yw sicrhau bod plant yn cael eu harfogi â'r sgiliau a'r profiadau i allu arddel eu hawliau mewn modd hyderus.



4. Cyfranogi. Byddwn yn creu gwell datrysiadau trwy gynnwys plant yn y gwaith o ddatblygu'r polisïau a'r arferion sy'n bodoli i'w gwasanaethu. Mae hyn y gweithio ar lefel strategol, a hefyd ar lefel unigol. Os byddwn yn pendroni dros y ffordd orau o helpu plentyn neu grŵp o blant, yna un ffordd dda ymlaen yw trwy ofyn iddynt a chydweithio â nhw. Rydym yn ffodus yng Nghymru fod gennym doreth o brofiadau da o ran cyfranogi i dynnu arnynt yma: gall sefydliadau weithio gyda menter Cymru Ifanc, fforymau ieuenctid awdurdodau lleol, grwpiau'r sector gwirfoddol a'r gwasanaeth ieuenctid er mwyn sicrhau bod hyn yn cael ei wneud yn dda wrth iddynt weithio ar eu polisïau.

5. Atebolrwydd. Mae'r egwyddor olaf hon yn hanfodol, ond mae'n aml yn cael ei hepgor. Mae llawer yn meddwl bod egwyddor 4, Cyfranogi, yn cwmpasu holl hawliau plant. Ystyr atebolrwydd yw bod yn dryloyw gyda'r plant a'u teuluoedd ynghylch yr hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud, pa mor dda yr ydym wedi ei wneud, a'r hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud nesaf. Mae'n golygu rhoi gwybod i'r plant am yr hyn a wnaed â'r mewnbwn a roddwyd ganddynt wrth iddynt gyfranogi. Gall olygu tryloywder ynghylch cyllidebau, a dylai olygu hynny. Mae'r egwyddor hon, fel pob un o'r lleill, yn bwysig i bob dinesydd, ond tybir yn aml nad yw plant dan 18 oed yn rhan o'r gynulleidfa, felly nid yw'r cyfathrebu'n cael ei gyfeirio atynt. Yn fy marn i, dylem siarad â phlant am ACEau (mewn ffordd ofalus, heb unrhyw stigma) ac am y modd yr ydym wedi ymrwymo i helpu plant i adfer yn dilyn trawma.

Casgliad

Dylid croesawu'r ymwybyddiaeth gynyddol o Brofiadau Niweidiol yn Ystod Plentynod ledled ein gwasanaethau cyhoeddus. Mae angen i ni fanteisio ar y cyfnod hwn – wrth i'r momentwm gynyddu tuag at ddealltwriaeth a rennir o effaith y profiadau hyn, ynghyd ag ewyllys i wella ledled y sectorau – gan ddefnyddio model yr ACEau yn arf i gyflawni'r gwelliannau hyn trwy ailstrwythuro.

Serch hynny, mae'n bwysig ystyried peryglon posibl model yr ACEau. Os na fyddwn yn ofalus, gallai system a arweinir gan y broses o fesur ACEau plant olygu bod plant yr ystyrir bod ganddynt 'lai' o ACEau, neu ddim ACEau o gwbl, yn wynebu anfantais trwy gael llai o fynediad at y gwasanaethau y mae arnynt eu hangen. Ar y llaw arall, gallai'r ffaith bod plentyn wedi cael profiadau niweidiol fod yn label arall sy'n negyddu ymatebion unigolion i drawma.

Er mwyn osgoi'r peryglon, mae'n rhaid i'r ffordd ymlaen gael ei gwreiddio mewn dull sy'n seiliedig ar hawliau dynol. Gall model yr ACEau ffurfio rhan bwerus o ddull newydd, sy'n canolbwyntio ar y plentyn, o gefnogi ein plant a'n pobl ifanc. Fodd bynnag, byddwn yn annog y gwasanaethau hynny sy'n gweithio gyda'r plant hynny y mae arnynt angen cymorth ychwanegol, i ystyried y modd y gall y pum egwyddor uchod arwain eu gwaith wrth iddynt ystyried rôl model yr ACEau o ran darparu gwasanaethau yn y dyfodol.

